CYFARFOD Y CYNGOR **21 HYDREF 2026**

AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb a gyflwynwyd gan yr aelodau.

2. DATGAN BUDDIANNAU

Yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant personol neu fuddiant personol ac sy'n rhagfarnu yn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3. COFNODION

Cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a'r cyfarfod pwyllgor isod yn gofnodion cywir (copïau ynghlwm):

Cyfarfod y Cyngor	-	16 Medi 2026	-	Cofnodion rhifau 59-76
Y Pwyllgor Cynllunio	-	16 Medi 2026	-	Cofnodion rhifau 9-13

4. ADRODDIAD Y MAER

Derbyn y manylion amgaeedig am y digwyddiadau y bu'r Maer a'r Dirprwy Faer ynddynt yn ystod y mis diwethaf.

5. CYFLWYNIAD: PRESWYLYDD Y RHYL, MR PETER McKEOWN

Croesawu Mr McKeown i'r cyfarfod, i gyflwyno tystysgrif iddo i gydnabod ei ddewrder yn rhoi cymorth i ddynes a oedd yn dioddef ataliad ar y galon ar y Stryd Fawr yr haf hwn.

6. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – MIS MEDI (ATODLEN A)

Derbyn yr adroddiad ynghlwm gan Glerc y Dref a'r Swyddog Cyllid.

7. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B) – MIS HYDREF 2025

Derbyn a phenderfynu ar yr adroddiad ynghlwm gan Glerc y Dref a'r Swyddog Cyllid.

8. ADNEWYDDU'R YSWIRIANT 2026- 2027

Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad ynghlwm gan Glerc y Dref a'r Swyddog Cyllid, ynghylch yswiriant y Cyngor yn ystod 2026-27 (yn dechrau ar 1 Tachwedd 2026).

9. PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU 2026/27: CHWARTER 2 – MIS EBRILL – MIS MEDI 2026

Derbyn a phenderfynu ar yr adroddiad ynghlwm gan Glerc y Dref a'r Swyddog Cyllid.

10. CYFRIFON ARIANNOL A RHAGFYNEGIADAU AR GYFER 2026/27

Derbyn a nodi'r adroddiad ynghlwm gan Glerc y Dref a'r Swyddog Cyllid.

11. YMGYNGHORI: ASESIAD LLESIANT LLEOL CONWY A SIR DDINBYCH

Derbyn ac ystyried y neges e-bost ynghlwm a'r dogfennau cysylltiedig.

12. PUM NIWRNOD PARCIO AM DDIM YN Y RHYL

Ystyried pa ddiwrnodau i'w dynodi fel diwrnodau parcio am ddim yn y meysydd parcio yng nghanol y dref a weithredir gan Gyngor Sir Ddinbych erbyn 31 Rhagfyr 2026.

13. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, ar sail cyfrinachedd.

14. CAIS GAN DWRISTIAETH GOGLEDD CYMRU

Derbyn yr adroddiad cyfrinachol ynghlwm gan Bwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol y Cyngor, yn dilyn derbyn ystadegau ategol gan Dwristiaeth Gogledd Cymru.

15. BLAENORIAETHAU'R CYNGOR TREF

Derbyn yr adroddiad cyfrinachol ynghlwm gan Glerc y Dref yn dilyn ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd a gynhaliwyd gan y cyhoedd yn ddiweddar, i'r aelodau ei gymeradwyo.

16. COFNODION CYFRINACHOL

Derbyn y cofnodion cyfrinachol isod er gwybodaeth i'r aelodau a chymeradwyo'r argymhellion a wnaed:

Y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol	-	14 Medi 2026	-	Cofnodion rhifau 42-48

17. DIWEDD Y CYFARFOD

Y Maer i gyhoeddi diwedd y cyfarfod.